| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **16 Gorffennaf 2015** |
| TEITL: | **Adroddiadau Archwilio Allanol** |
| PWRPAS / ARGYMHELLIAD: | **Cyflwyno crynodeb o gamau gweithredu sefydlwyd gan y gwasanaethau mewn ymateb i adroddiadau archwilio allanol a'u hargymhellion er ystyriaeth y Pwyllgor Archwilio** |
| AWDUR: | **Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol** |
| AELOD CABINET: | **Cynghorydd Dyfrig Siencyn** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Un o brif ddyletswyddau'r Pwyllgor Archwilio yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, yw **adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol**. Mae'r Canllawiau Statudol a gyhoeddwyd yn unol â'r Mesur yn datgan bod angen i'r Pwyllgor, er mwyn cyflawni hyn:

- "*adrodd ar ddigonolrwydd trefniadau rheoli risgiau a rheolaeth fewnol yr awdurdod a gwneud sylwadau ar eu heffeithiolrwydd yn ogystal â gwneud gwaith dilynol ar y risgiau a nodwyd gan archwilwyr a gofyn am adroddiadau ar y camau a weithredwyd mewn ymateb*;" a
- "*bydd angen i'r awdurdod sicrhau nad yw gwaith yn cael ei ddyblygu'n ddianghenraid rhwng y pwyllgor archwilio ac unrhyw bwyllgor trosolwg a chraffu wrth ystyried adroddiadau o'r fath*".

1.2 Yn ei gyfarfod ar 3 Rhagfyr 2013, bu i'r Pwyllgor Archwilio gymeradwyo trefn newydd i gryfhau trefniadau llywodraethu a chraffu'r prif adroddiadau gan osgoi unrhyw ddyblygu neu aneglurder. Y prif adroddiadau yw:-

- Adroddiadau ESTYN
- Adroddiadau gan yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)
- Adroddiadau Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru (SAC)

1.3 Mae cyfrifoldeb ar y Pwyllgor Archwilio i sicrhau bod trefniadau a phrosesau ar waith er mwyn sicrhau bod unrhyw argymhellion a gynhwysir mewn adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gweithredu.

1.4 Bu i’r Fforwm Cadeiryddion Craffu yn ei gyfarfod ar 24 Ionawr 2014, dderbyn y cynnig i’r Pwyllgorau Craffu perthnasol graffu’r prif adroddiadau archwilio allanol.

1.5 I osgoi dyblygu gwaith penderfynwyd cyflwyno crynodeb i’r Pwyllgor Archwilio o’r camau gweithredu sefydlwyd gan y gwasanaethau mewn ymateb i’r adroddiadau archwilio allanol a’u hargymhellion. Cyflwynir crynodeb i’r Pwyllgor fel daw argymhellion y prif adroddiadau neu unrhyw argymhellion sylweddol eraill i’n sylw.

1.6 Ceir manylion diweddaraf o’r prif adroddiadau yn Atodiad 1.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 Gofynnir i’r Pwyllgor Archwilio

i) Ystyried cynnwys yr atodiad a bodloni ei hun fod tystiolaeth bod argymhellion archwilwyr allanol yn derbyn sylw digonol

ii) Benderfynu os ydyw am alw unrhyw fater i mewn am ystyriaeth bellach, unai i’r Pwyllgor llawn neu’r Gweithgor Gwella Rheolaethau